Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

GWRTHWYNEBU CAIS CYNLLUNIO NEU APÊL GYNLLUNIO

Mae ceisiadau cynllunio'n rhan o'r broses ddemocrataidd leol felly mae gennych hawl i gyflwyno eich barn am geisiadau cynllunio eraill am ganiatâd cynllunio, neu apeliadau cynllunio pa un a ymgynghorwyd â chi'n ffurfiol neu beidio.

Os yw'r cais cynllunio'n cael ei gyflwyno i bwyllgor, bydd yn cael ei drafod yn gyhoeddus.

Gallwch ysgrifennu at adran gynllunio eich cyngor lleol (neu'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer apeliadau) a bydd eich barn yn cael ei hystyried. Ond dim ond pwyntiau cynllunio perthnasol sy'n gallu gwneud gwahaniaeth.
Os cyflwynir eich achos mewn ffordd broffesiynol, gan adlewyrchu cyfraith gynllunio a'r cynllun lleol, gallai ddylanwadu ar ganlyniad y cais cynllunio neu'r apêl gynllunio.